

# Papur briffio Engage to Change: Swyddi i bobl ag anabledd dysgu neu awtistiaeth - Rôl y GIG



---

**Dr Stephen Beyer, Tîm Gwerthuso Engage to Change, Prifysgol Caerdydd**

## Cefndir

Mae'r bartneriaeth Engage to Change wedi tynnu sylw at yr her sy'n wynebu pobl ag anableddau dysgu neu awtistiaeth yn y dirwasgiad yn y farchnad lafur a grëwyd gan bandemig y coronafeirws. Yr her fydd cynnal y swyddi sydd eisoes wedi'u canfod ar gyfer pobl drwy fentrau fel Engage to Change, mentrau i godi ymwybyddiaeth o alluoedd pobl, ac opsiynau cyflogadwyedd i ddatblygu cyfleoedd gwaith newydd mewn marchnad lafur dynn iawn. Gwyddom hefyd y bydd cystadleuaeth ffyrnig am y swyddi sy'n bodoli. At hynny, bydd effaith cymhellion cenedlaethol a Llywodraeth Cymru i helpu cyflogwyr i gynnig swyddi i staff newydd yn gyfle ac yn fygythiad i bobl ag anabledd dysgu neu awtistiaeth. Gall y mentrau hyn fod yn fygythiad oherwydd gallant ddargyfeirio swyddi a allai fod wedi bod ar gael unwaith i bobl ag anableddau dysgu neu awtistiaeth i boblogaethau eraill oherwydd gweithredoedd y cymhelliant (ee y Cynllun Kickstart). Bydd y mentrau hyn yn gyfle os bydd pobl ag anabledd dysgu neu awtistiaeth yn cael y cymorth i'w cyrchu'n llwyddiannus.

Mae'r bartneriaeth Engage to Change wedi gwneud cynigion i Lywodraeth Cymru ar gyfer cynnig cenedlaethol a fyddai'n helpu i lefelu'r maes chwarae i bobl ag anabledd dysgu neu awtistiaeth, ac mae'n rhagweld yr angen i gefnogi mynediad pobl at unrhyw fentrau cyflogadwyedd sydd ar gael:

- Y Gwasanaeth Hyfforddi Swyddi Cenedlaethol i helpu pobl ag anabledd dysgu neu awtistiaeth i ddod o hyd i swydd, ei chael, dysgu a chadw'r swydd drwy'r model cyflogaeth â chymorth ac i'w helpu i gael mynediad at gynlluniau cyflogadwyedd eraill gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (e.e. Kickstart, Cymunedau mewn Gwaith a Mwy).
- Cynnig Rhyngweithiol â Chymorth cenedlaethol a fyddai'n darparu hyd at 12 mis o hyfforddiant yn y gwaith gyda chyflogwr mawr, neu rwydweithiau lleol o BBaChau, a'r posibilrwydd o swydd â thâl ar y diwedd.
- Grant Datblygu Cyflogwyr hyblyg a allai gefnogi gweithwyr drwy roi cymhorthdal i gyflogau neu gostau eraill cyflogwyr dros gyfnod o 6-12 mis.
- Pwyslais ar ddarpariaeth frodorol yng Nghymru, gan sicrhau gwybodaeth am rwydweithiau cyflogwyr lleol i gyd-fynd â'n disgwyliad o newid i arferion recriwtio lleol ymhlith cyflogwyr.

Credwn fod lle i fentrau pellach yn y sector cyhoeddus o ran creu llwybrau cryfach i bobl ag anabledd dysgu neu awtistiaeth i swyddi â chyflog.

## Sefydliadau angori

Bu diddordeb sylweddol yn y syniad o "sefydliadau angori" o fewn economïau lleol sy'n chwarae rhan benodol yn y gwaith o gynnal a chreu swyddi<sup>1</sup>. Mae'r rhain yn gyflogwyr sy'n annhebygol o symud yn ystod cyfnodau o ddirwasgiad, sy'n cynrychioli cronfeydd cyfalaf sylweddol, sy'n brynwyr gwasanaethau sylweddol ac yn cyflogi nifer fawr o bobl leol. Cyfeirir at y GIG yn aml fel enghraifft o gyflogwr angori. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys awdurdodau lleol, prifysgolion, colegau, darparwyr trafniadaeth craidd a darparwyr gwasanaethau eraill yn y sector cyhoeddus. Gall hyn ddylanwadu ar yr economi leol mewn nifer o ffyrdd:

---

<sup>1</sup> Reed, S. (2018). *The NHS as an anchor*. Y Sefydliad Iechyd. <https://www.health.org.uk/newsletter-feature/the-nhs-as-an-anchor>

- Yn y ffordd maen nhw'n **prynu** gwasanaethau, gall sefydliadau angori hyrwyddo swyddi mewn economïau lleol, gallant godi cyfraddau cyflog tuag at y cyflog byw cenedlaethol, a helpu i greu cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau a chynlluniau paratoi gwaith eraill.
- Drwy'r ffordd maen nhw'n defnyddio **asedau cyfalaf** fel adeiladau, yn enwedig adeiladau sy'n cael eu tanddefnyddio, gallant gynhyrchu gwaith a darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu swyddi yn yr ardal leol.
- Fel cyflogwyr mawr, gall sefydliadau angori fod yn sail i gyfraddau cyflog gweddus a dangos arfer da mewn cyfle cyfartal a recriwtio amrywiol. Gallant hefyd fod yn gatalydd ar gyfer creu rhwydweithiau o gyflogwyr i rannu gwybodaeth, adnoddau ac arfer da i fodloni dyheadau cenedlaethol a rhanbarthol ar gyfer cyflogi pobl ag anableddau sylweddol.

## Manteision cyflogi pobl ag anabledd dysgu neu awtistiaeth yn y GIG

Mae GIG Lloegr wedi datblygu Cynllun Cyflogaeth Anabledd Dysgu (LDEP), sy'n cwmpasu pobl ag awtistiaeth, ac mae'n rhan o ymrwymiad gan y llywodraeth i gyflogi degau o filoedd o bobl ag anabledd dysgu. Mae'r fenter hon wedi arwain at ddatblygu nifer sylweddol o interniaethau â chymorth yn Ymddiriedolaethau'r GIG i ddarparu llwybr i amrywiaeth o swyddi yn y GIG. Mae hyn yn cael ei gydlyn fel rhan o ymrwymiad y GIG i ddatblygu mwy o gydraddoldeb ac amrywiaeth yn eu gweithlu ac mae wedi creu niferoedd sylweddol o swyddi cyflogedig.

Mae interniaethau â chymorth (gan gynnwys DFN Project SEARCH) yn chwarae rhan ganolog ac effeithiol yn strategaeth GIG Lloegr i ddarparu nifer sylweddol o swyddi i bobl ag anabledd dysgu. Dengys data o DFN Project SEARCH yn Lloegr eu bod wedi cyflawni eu cynlluniau mewn partneriaethau mewn 22 o safleoedd ysbytai'r GIG yn 2018-19, gan wasanaethu 190 o interniaid yn y flwyddyn honno. Y gyfradd gyflogaeth ar ddiwedd interniaethau pobl oedd 60.8% o'r garfan, gyda chyfradd cadw swyddi o 95%. Ar gyfartaledd, cyflogwyd pobl am 28 awr yr wythnos.

Ymchwiliodd astudiaeth o'r gwerth cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a grëwyd gan interniaethau â chymorth yn y GIG gan ddefnyddio methodoleg *Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI)* i DFN Project SEARCH yn Ysbyty Cyffredinol Wishaw yng Ngogledd Swydd Lanarkshire dros gyfnod o ddwy flynedd. Fe wnaeth ganfod bod y manteision yn ymestyn y tu hwnt i'r 2 flynedd a astudiwyd ac mai'r gwerth ychwanegol a grëwyd gan DFN Project SEARCH dros yr hyn a gostiodd oedd £206,749 ar gyfer y cynllun ysbyty hwnnw. I grynhoi, creodd y rhaglen interniaeth £3.96 o werth cymdeithasol am bob punt o fuddsoddiad yn ôl prisiau 2013.<sup>2</sup>

Er bod pandemig y coronafeirws wedi achosi heriau sylweddol i'r GIG, mae llawer o enghreifftiau o interniaethau â chymorth a recriwtio pobl ag anabledd dysgu neu awtistiaeth yn parhau er gwaethaf cyfyngiadau cyfnodau clo olynol a phwysau ar staff a rheolwyr y GIG. Mae GIG Lloegr wedi adnewyddu eu hymrwymiad i'r Cynllun Datblygu Lleol yn ddiweddar ac maen nhw'n bwriadu adnewyddu eu strategaeth ar gyfer recriwtio a lleoli pobl ag anabledd dysgu.

Nid oes ymrwymiad tebyg gan GIG Cymru. Mae'r GIG yn sefydliad angori sylweddol mewn sawl rhanbarth yng Nghymru. Bydd yn parhau i chwarae rhan bwysig fel comisiynydd gwasanaethau ac fel cyflogwr pobl hyd yn oed drwy gydol dirwasgiad y farchnad lafur yr ydym yn ei ragweld o ganlyniad i bandemig y coronafeirws, ac unrhyw oblygiadau Brexit ar ôl Mis Ionawr 2021.

Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi'n sylweddol mewn amser ac adnoddau i ddatblygu cynllun adfer i frwydro yn erbyn effaith economaidd y pandemig. Rydym yn dadlau bod angen mesurau ychwanegol i gynnal lle i bobl ag anabledd dysgu neu awtistiaeth yn y farchnad lafur yn y dyfodol. Mae ein hymchwil wedi dangos bod y prosiect Engage to Change wedi llwyddo cyn y pandemig wrth greu interniaethau

---

<sup>2</sup> Social Value Lab (2013) SROI Evaluation Project Search. <http://www.socialvaluelab.org.uk/wp-content/uploads/2013/09/SROI-Report-Project-Search-Final.pdf>

â chymorth o fewn “sefydliadau angori” fel Ysbyty Tywysoges Cymru Pen-y-bont ar Ogwr, Ysbyty Gwynedd Bangor, Prifysgol Caerdydd ac awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf. Mae pobl ifanc wedi cael swyddi â chyflog mewn sefydliadau sector cyhoeddus.<sup>3</sup> Yn ogystal â hynny, mae swyddi unigol wedi’u canfod yng ngwasanaethau ehangach y GIG ac mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill. Fodd bynnag, mae’r rhan fwyaf o swyddi Engage to Change wedi’u canfod yn y sector preifat - mae swyddi ac interniaethau â chymorth wedi bod yn anodd dod o hyd iddynt yn y sector cyhoeddus ar y cyfan.

## Strategaeth Cyflogaeth Anabledd Dysgu ac Awtistiaeth y sector cyhoeddus i Gymru

Ar yr adeg hon pan fo’r pwysau mwyaf posibl ar y farchnad lafur mae’n bwysig bod cyflogwyr y sector cyhoeddus yn cael eu hannog i chwarae eu rôl fel angorau yn eu cymunedau a’u rhanbarthau lleol, yn enwedig mewn perthynas â chyflogi pobl ag anabledd dysgu neu awtistiaeth. Rydym yn gweld cyfle sylweddol i hyrwyddo cyflogaeth pobl yn y grwpiau targed hyn yn systematig gan gyflogwyr mawr yn y sector cyhoeddus fel rhan o gynllun adfer Llywodraeth Cymru. Byddai hyn yn cynrychioli strategaeth debyg i Gynllun Cyflogaeth Anabledd Dysgu GIG Lloegr ac yn gwbl gefnogol i’r ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn y GIG, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru), yr Anabledd Dysgu presennol: rhaglen Gwella Bywydau, a’r Cynllun Cyflawni ASD wedi’i ddiweddarau a’r Cod Ymarfer drafft. At hynny, mae adolygiad diweddar o’r llenyddiaeth yn cefnogi’r farn bod y cysylltiad sefydledig rhwng cyflogaeth a gwell iechyd yn debyg i oedolion ag anableddau deallusol a heb anableddau deallusol.<sup>4</sup> Drwy gryfhau cyflogaeth pobl ag anabledd dysgu, naill ai o

---

<sup>3</sup> Meek, A., Vigna, E., Beyer, S. Meighan, J. (2019) Engage to Change: Adroddiad DFN Project SEARCH ar raglen interniaeth ar gyfer pobl ifanc ag Anableddau Dysgu a/neu Awtistiaeth: Y tair blynedd gyntaf. Caerdydd: Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl, Prifysgol Caerdydd.

<sup>4</sup> Robertson, J., Beyer, S., Emerson, E., Baines, S. and Hatton, C. (2019) The association between employment and the health of people with intellectual disabilities: A systematic review. *J Appl Res Intellect Disabil.*, 3, 2:1335–1348

fewn y GIG neu drwy weithredu fel catalydd ar gyfer cyflogaeth gan asiantaethau allweddol eraill, bydd y GIG yn hyrwyddo ei agenda craidd ar gyfer gwella iechyd y cyhoedd. Byddai unrhyw strategaeth o'r fath yn cyd-fynd â'n cynigion presennol ar gyfer Gwasanaeth Hyfforddi Swyddi Cenedlaethol a chynnig Interniaeth â Chymorth cenedlaethol.

Byddai hon yn strategaeth hirdymor a byddem yn disgwyl canlyniadau sylweddol dros gyfnod o 5 mlynedd. Ni ddylid ystyried cynnwys y GIG yng Nghymru mewn strategaeth o'r fath fel unrhyw fath o faich ychwanegol. Mae tystiolaeth gan LDEP GIG Lloegr yn awgrymu y bu manteision sylweddol i ysbytai a gwasanaethau eraill o interniaethau â chymorth a chyflogi pobl ag anabledd dysgu neu awtistiaeth.<sup>5</sup>

Mae manteision cyflogi pobl ag anabledd dysgu o fewn y GIG wedi'u crynhoi gan Ymddiriedolaethau Lloegr,<sup>67</sup> gyda phrofiad fel:

- Cronfa dalent leol fwy ar gyfer swyddi anodd eu llenwi a throsiant uchel.
- Creu rôl gweithiwr cymorth newydd.
- Cyflogi pobl o gefndiroedd amrywiol i gyflawni Safon Cydraddoldeb Anabledd Gweithlu'r GIG.
- Mynediad i gronfa dalent recriwtio a oedd hefyd yn gwasanaethu Canolfannau Iechyd Cymunedol, clinigau meddygol, cartrefi gofal a gwasanaethau cleifion allanol.
- Boddhad uchel tîm mewnol yr ysbyty.

At hynny, byddai strategaeth o'r fath yn galluogi datblygu partneriaethau lleol neu ranbarthol i ddatblygu arfer da a chyfleoedd cyflogaeth pellach ar draws y sector cyhoeddus. Byddai hyn yn cydbwysu strategaethau cyflogaeth cydraddoldeb Llywodraeth Cymru wedi'u targedu'n bennaf at y sector preifat (e.e. Hyrwyddwyr

---

<sup>5</sup>Cyflogwyr y GIG (2020) *Datblygu rôl hyblyg: Royal United Bath NHS Foundation Trust.*

<sup>6</sup>Cyflogwyr y GIG (2020a) *Adeiladu cronfa dalent gymunedol Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gogledd Dyfnaint - Barnstaple.*

<sup>7</sup>Cyflogwyr y GIG (2020b) *Cymorth cynaliadwy hirdymor: Barts Health NHS Trust.*

Cyflogaeth Anabledd, Prentisiaethau Cynhwysol). Ceir enghraifft gadarnhaol o'r dull partneriaeth rhanbarthol hwn yng *Nghynghrair GIG Gorllewin Llundain*<sup>8</sup> sy'n datblygu interniaethau â chymorth ar gyfer pobl ag anabledd dysgu neu awtistiaeth. Yma, bu ymgais i ddatblygu llwybr cynhwysfawr i bobl ag anabledd dysgu gael gwaith cyflogedig gyda chefnogaeth sylweddol y sector cyhoeddus. Mae'r Gynghrair yn cynnwys 3 ysbyty'r GIG, Ymddiriedolaeth GIG Gorllewin Llundain, a darparwyr gofal iechyd sylfaenol, gofal cymdeithasol ac addysg. Mae'r bartneriaeth yn darparu'r ymyriadau canlynol ar sail ardal gyfan i hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth â thâl yn systematig ar gyfer y grwpiau hyn:

- Ffurio teuluoedd a chodi dyheadau ynghylch cyflogaeth mewn clinigau mamolaeth a phediatrig.
- Cyflwyniad i yrfaeodd iechyd a gofal cymdeithasol ar draws blynyddoedd 7 i 12 mewn ysgolion, gydag ymgysylltiad â'r teulu.
- Profiad gwaith â chymorth ym mlynyddoedd ysgol 12 i 13.
- Rhaglenni sgiliau a chaffael cyn cyflogi yn cael eu cynnig drwy gyrsiau byr a cholegau ynghyd â "rhaglen baratoi ar gyfer interniaeth".
- Rhaglenni interniaeth â chymorth lluosog yn seiliedig ar gyflogwyr mawr yn y sector cyhoeddus, a hefyd gyda rhwydwaith o gyflogwyr llai.
- Mynediad at brentisiaethau a hyfforddeiaethau â chymorth gyda'r gweithwyr ynghyd â swyddi â thâl gyda chymorth hyfforddiant gyda chymorth anogwr swyddi â chymorth.

Yn ystod y cam nesaf, mae'r Gynghrair yn bwriadu datblygu eu gwasanaeth hyfforddi swyddi yn eu hardal eu hunain i sicrhau bod hyfforddiant swyddi medrus ar gael i gefnogi'r cyfleoedd cyflogaeth sy'n cael eu darparu. Mae hyn yn dangos

---

<sup>8</sup> <https://wla.london>

ymhellach yr angen am gyflenwad o hyfforddiant swyddi da i ategu strategaethau allweddol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu neu awtistiaeth.

Mae rôl y GIG fel sefydliad angori canolog o fewn Cynghrair Gorllewin Llundain yn glir. Mae'r cyfle i gael dull rhwydwaith tebyg yng Nghymru hefyd yn glir. Fel rhan o'r ymdrechion parhaus i ddatblygu cynllun adfer cydlynol ar gyfer swyddi yng Nghymru, a sicrhau mynediad cyfartal i bobl ag anabledd dysgu neu awtistiaeth, rydym yn cynnig y canlynol:

- **Bod Llywodraeth Cymru yn datblygu cynllun cyflogaeth anabledd dysgu ac awtistiaeth ar gyfer y GIG.**
- **Bod y cynllun hwn yn rhan o strategaeth i ddefnyddio rôl arweiniol y GIG mewn cyflogaeth yng Nghymru i hyrwyddo cydweithio ardal a rhanbarthol gyda sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus gan helpu i baratoi'r grŵp hwn o ddefnyddwyr ar gyfer y byd gwaith, a rhoi llwybrau iddynt at gyflogaeth â thâl.**
- **Bod y cydweithio hyn yn hyrwyddo arfer da o ran recriwtio a hyfforddi gan gyflogwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn yr ardaloedd a'r rhanbarthau hyn.**



Mae'r prosiect Engage to Change yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth rhwng Anabledd Dysgu Cymru, Agoriad Cyf, Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan, Prifysgol Caerdydd, Cyflogaeth â Chymorth ELITE ac mewn cydweithrediad â'r Prosiect DFN SEARCH. Ariennir y prosiect gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru drwy'r rhaglen Bwrw Ymlaen 2.



[www.engagetochange.org.uk](http://www.engagetochange.org.uk)



[www.adcymru.org.uk](http://www.adcymru.org.uk)



[www.agoriad.org.uk](http://www.agoriad.org.uk)



[www.allwalespeople1st.co.uk](http://www.allwalespeople1st.co.uk)



[www.cymraeg.ncmh.info](http://www.cymraeg.ncmh.info)



[www.elitesea.co.uk](http://www.elitesea.co.uk)

DFN Project | SEARCH  [www.dfnprojectsearch.org](http://www.dfnprojectsearch.org)

